# Adroddiad 23/24

HYDREF 2023



## Virginia CROSBIE

## NEWYDDION GAN AELOD SENEDDOL YNYS MÔN

Nid yw trethdalwyr y DU wedi talu am gostau argraffu a dosbarthu'r pamffled hwn.

- Cyflawni statws porthladd rhydd gyda chyllid gwerth £26m
- £20m ar gyfer adnewyddu Morglawdd Caergybi
- £17m o'r Gronfa Ffyniant Bro

"Er gwaethaf y gwahaniaethau yn ein barn wleidyddol, ni allaf ganu clodydd Virginia Crosbie ddigon am ei gwaith caled dros Gaergybi ac Ynys Môn. Mae hi wedi gwneud gwaith ardderchog yn hyrwyddo ein tref a'n hynys. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda hi er budd ein cymunedau."

Cyng. Hywel Williams, Maer Caergybi

# Helo – Croeso i fy adroddiad blynyddol, 2023

## FY NGWAITH MEWN RHIFAU

**19,300**
O achosion wedi'u hymdrin

**380**
o gwestiynau a llythyrau at Weinidogion

**287**
o sylwadau am Ynys Môn yn y Senedd

**251**
o gyfraniadau llafar yn ystod Achosion Seneddol

**£83m**
o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Ynys Môn

**19**
Gweinidog yn ymweld ag Ynys Môn a dau Brif Weinidog

## FY MLAENORIAETHAU DROS YNYS MÔN

### 1 Dod â Niwclear Newydd i Wylfa
Bydd miloedd o swyddi o ansawdd ar gyfer cenedlaethau o bobl leol yn cael eu cyflawni pan fydd niwclear newydd wedi'i ganiatáu yn Wylfa. Rwy'n gwneud popeth yn fy ngallu, yn gweithio gyda Gweinidogion, datblygwyr a sefydliadau i ddenu buddsoddiad niwclear newydd i Ynys Môn.

### 2 Datblygu Porthladd Rhydd ffyniannus yn Ynys Môn
Bydd ein hynys gyfan yn elwa o'n statws porthladd rhydd newydd; gyda thros 13,000 o swyddi a gwerth £1bn o fuddsoddiad posibl. Mae busnesau newydd fel Westinghouse, sy'n gwmni o'r Unol Daleithiau, eisoes yn dod â swyddi o ansawdd yma ac mae busnesau sydd eisoes yn bodoli yn elwa arnynt. Ymgyrchais yn galed i gael porthladd rhydd yn Ynys Môn a daeth y Prif Weinidog i Ynys Môn i gyhoeddi'r newyddion.

### 3 Gwella gofal iechyd lleol
Gofal iechyd yw'r trydydd peth yr wyf yn canolbwyntio arno, er ei fod yn fater datganoledig ac yn gyfrifoldeb i'r Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd. Byddaf yn ymyrryd yn aml ar ran fy etholwyr i gydlynu apwyntiadau am lawdriniaethau ac apwyntiadau â meddygon teulu, deintyddion ac apwyntiadau mawr eu hangen yn yr ysbyty. Rwyf wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i recriwtio mwy o feddygon teulu ar yr Ynys.

### 4 Trydedd pont dros y Fenai i wella cysylltedd
Mae seilwaith trafnidiaeth cadarn a gwydn yn hollbwysig i bobl Ynys Môn allu ceisio gofal iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae fy ymgyrch am drydedd pont wedi pwysleisio'r diffyg buddsoddiad gan y Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd a pha mor bwysig yw cysylltiadau ffyrdd er mwyn denu cyflogwyr newydd.

### 5 Gwneud y gorau o Ynys Ynni
Mae prosiectau ynni gwynt, tonnau, solar, morol a hydrogen ar Ynys Môn - gyda'r gobaith o gyflwyno niwclear newydd hefyd. Mae ein hynys yn chwarae rhan yn y gweithredu dros newid hinsawdd. Drwy greu llwyfan i alluogi cwmnïau fel Morlais i lwyddo, rwy'n sicrhau y bydd ein Hynys Ynni yn cyflwyno swyddi a ffyniant i bobl leol.

### 6 Cynhyrchu Ffyniant ledled Ynys Môn
Cyflwyno swyddi sy'n talu'n dda i bobl leol yw'r ffordd orau o sicrhau y gall fy etholwyr fforddio prynu eu tŷ eu hunain a magu eu teuluoedd ar Ynys Môn, ac mae hynny'n ffordd o amddiffyn ein hiaith a'n diwylliant hefyd. Ers i'r ynys fy ethol, mae Llywodraeth y DU wedi dyfarnu dros £83m i Ynys Môn i gyflwyno swyddi newydd, hyfforddiant sgiliau


**Cynhyrchwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn diolch i:**

Adelphi Vaults Amlwch
Anglesey Hamper Company
Arfor Camping Moelfre
Beau's Tea Rooms
Becws Môn
Carlita Secrets Dogs Treats & Accessories
Clippers Barber Shop
Cuffed-In Coffee
Hamilton Hair Salon Llangefni
Howdens Llangefni
Joseph Keegan & Sons Ltd / James Fearon Wines
Medic 1 Direct Ltd
Mona Dairy
Morgan Evans & Co Ltd
Newry Juniors
Nova Chrome UK
Royalty Recruitment
Sandy Mount House
Siop Llandeg
The Bull Hotel, Y Fali
The Gwalchmai Hotel
The Hogan Group
The White Eagle
Swyddfa'r Post a Siop Gyfleustra Spar Bae Trearddur
United Artisans UK
Wonderfully Wild Ltd
WOW Training
Y Dec Moelfre


**Croeso i fy nhrydydd adroddiad blynyddol.** Pleser yw bod yn Aelod Seneddol i chi a dyma fy nghyfle i fod yn atebol i bobl Ynys Môn.

Ers i'r ynys fy ethol, rwyf wedi parhau i frwydro i godi proffil Ynys Môn yn fyd-eang ac rwyf wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad a chreu cyfleoedd newydd, cyffrous ar gyfer pobl leol.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau ffyniant bro yn llefydd fel Ynys Môn, ac mae hynny i'w weld drwy'r £26m ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, £20m ar gyfer adnewyddu Morglawdd Caergybi, £17m o'r Gronfa Ffyniant Bro, £16m o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, £3m o gyllid Adfywio Cymunedol a bron i £1m o'r gronfa Strydoedd Saffach.

Os yw'r ynys yn defnyddio'r arian hwn yn synhwyrol, mae gan Ynys Môn y cyfle a'r adnoddau i fwynhau dadeni economaidd drwy groesawu buddsoddiad newydd a chyflwyno swyddi o ansawdd ac sy'n talu'n dda i bobl leol.

Rwy'n benderfynol o barhau i gyflawni'r cyfleoedd mae Ynys Môn eu hangen i warchod ein hiaith a'n diwylliant ac i sicrhau bod gan bobl ledled ein hynys ddyfodol disglair – a dyma'r dyfodol hwnnw.

*Virginia*



### Fel eich AS, mae gen i hanes o lwyddo i gyflawni er budd pobl leol

Roedd mab Mr Tate angen atgyfeiriad brys i'r clinig llygaid ar ôl iddo gael gwybod y gallai golli ei olwg.

Collwyd yr atgyfeiriad hwnnw oherwydd methiannau yn y gwasanaeth iechyd. Siaradais â BIPBC a llwyddais i ddatrys y mater yn brydlon.

Dywedodd Mr Tate: *"Does dim dwywaith bod Virginia wedi chwarae rhan fawr yn y sefyllfa a theimlaf na fyddem wedi dod drwyddi gystal heb ei chyfraniad."*

**Mae Ynys Môn wedi elwa o £83m gan Lywodraeth y DU ers 2020**

## Cysylltwch ynghylch

- Unrhyw broblem neu bryder lleol
- Eich straeon o lwyddiant, arwyr, digwyddiadau neu fusnesau lleol
- Ffyrdd y gallwch fy nghefnogi wrth i mi weithio i ddenu newid cadarnhaol i Ynys Môn
- I ddweud helô a chyflwyno eich hun

## Dewch i ni gydweithio i wella Ynys Môn

Treuliwch ddau funud yn llenwi fy holiadur. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthyf yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned **Virginiacrosbie.co.uk/survey**


**Ffôn: 01407 470747 | Ebost: virginia4ynysmon@gmail.com**
**facebook.com/VirginiaCrosbieMP | virginiacrosbie.co.uk**


Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig


Argraffwyd gan WO Jones (Argraffwyr) Ltd, Llangefni, LL77 7JA

Hyrwyddwyd gan Bernard Gentry, ar ran Virginia Crosbie AS, y ddau drwy law Ceidwadwyr Gogledd Cymru, Tŷ Commodore, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, LL22 8LJ











## Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cyflwyno 13,000 o swyddi newydd

Porthladd Rhydd Ynys Môn yw cychwyn ein dadeni economaidd. Mae'r Porthladd Rhydd yn ymwneud â'r ynys gyfan sy'n golygu bod busnesau sydd eisoes yma a sefydliadau newydd sy'n dechrau arni yma yn mwynhau buddion statws porthladd rhydd.

Mae pobl leol yn haeddu incwm a dyfodol da ar Ynys Môn ac mae hynny'n golygu ein bod angen swyddi sgiliau uchel o ansawdd. Drwy sicrhau cyflogaeth leol tymor hir â thâl da, byddwn yn atal colli ein pobl ifanc sydd, ar hyn o bryd, yn gadael i chwilio am yrfaoedd mewn mannau eraill, gan fynd â'r iaith Gymraeg gyda nhw a chwalu ein cymunedau.

Mae statws porthladd rhydd yn golygu y gallwn ddileu tollau mewnforio ac allforio, cael gwared ar rai trethi busnes a chyflogaeth, symleiddio gwaith papur a mwy. Bydd busnesau sy'n bodoli eisoes yn elwa o gyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd hefyd a chynnydd mewn cyfoeth cwsmer. Bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud yn rhatach i weithgynhyrchu a chynnal gweithredu masnachol ar Ynys Môn gan wneud ein hynys yn lle mwy atyniadol i wneud busnes.

Rwy'n benderfynol o wneud ein porthladd rhydd yn llwyddiant a dyna pam y byddwch yn fy ngweld yn mynd â chwmnïau fel GE-Hitachi, KEPCO, Westinghouse, Airbus, Rolls-Royce, Moltex a Bechtel o gwmpas yr ynys. Mae gan nifer o'r sefydliadau hyn gyflogau cyfartalog sydd bron i ddwywaith y rhai a geir ar Ynys Môn ac maent yn awyddus i fuddsoddi a dod â swyddi newydd o ansawdd yma. Ein llwyddiant Porthladd Rhydd cyntaf yw Westinghouse sydd wedi dechrau gweithred datgomisiynu yn M-SParc gan greu 15 swydd newydd gyda rhagor i ddod.

Am ragor o wybodaeth ynghylch beth mae statws porthladd rhydd ein hynys yn ei olygu i chi a'ch busnes, cofrestrwch i fynychu un o fy Ngweminarau Porthladd Rhydd rheolaidd.

## Cynnydd cyffrous gyda swyddi niwclear newydd yn Wylfa

Rwyf wedi ymgyrchu dros niwclear newydd yn Wylfa gan y bydd hynny'n cyflwyno miloedd o swyddi adeiladu a channoedd o swyddi parhaol, sy'n talu'n dda, yn Ynys Môn.

Cafodd Cronfa Galluogi Niwclear y Dyfodol, gwerth £120m ei chyhoeddi yn Wylfa; bellach caiff Wylfa ei gydnabod fel un o'r safleoedd gorau yn y DU am niwclear newydd.

Rwyf wedi sôn am Wylfa dros 58 gwaith yn y Tŷ Cyffredin, wedi arwain dadleuon yn San Steffan, gwasanaethu ar y Pwyllgor Bil Ynni Niwclear (Cyllid) a hyrwyddo tacsonomeg werdd ar gyfer niwclear. Rwy'n gadeirydd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach a'r Grŵp Cyflawni Niwclear, cynhaliais Wythnos Niwclear yn San Steffan ac rwy'n cyflwyno mewn cynadleddau ac yn ysgrifennu erthyglau yn rheolaidd.

Byddaf yn parhau i frwydro dros niwclear newydd yn Wylfa bob cyfle a gaf nes i mi weld rhawiau yn codi tir.

I ymuno â'm hymgyrch i gyflwyno niwclear newydd yn Wylfa... **www.virginiacrosbie.co.uk/nuclear**






VIRGINIA CROSBIE: GWEITHREDU DROS SWYDDI A BUDDSODDIAD I YNYS MÔN












## Mae pawb yn adnabod rhywun y mae Virginia wedi'u helpu

Fel eich AS, un o fy mhrif swyddi yw helpu pobl leol. Rwyf wedi rheoli dros 19,300 achos gan bobl ar draws Ynys Môn.

**Dyma enghreifftiau o'm gwaith, gyda chefnogaeth fy nhîm arbennig yng Nghaergybi.**

Cysylltodd Mr Rowlands â mi ar ôl cyfres o ddamweiniau car ger ei gartref. Ar ôl i mi ymyrryd, cafodd y ffordd ei hail-wynebu a chodwyd rhagor o arwyddion rhybudd. Meddai Mr Rowlands wrthyf: *"Diolch yn fawr. Rydych wedi llwyddo i wneud mwy ar ôl un llythyr nag y mae'r cynghorwyr lleol ac adran briffyrdd yr awdurdodau wedi'i wneud mewn ugain mlynedd."*

Roedd gan Mr Owen hawl i ad-daliad TAW ond roedd yn cael trafferth gyda CThEF i brosesu'r taliad. Wedi i mi ymyrryd, talodd CThEF yr hyn a oedd yn ddyledus i Mr Owen. Dywedodd: *"Byddem yn ddiolchgar petaech yn mynegi fy ngwerthfawrogiad i Virginia Crosbie am fynd â'r mater hwn ymhellach. Does dim dwywaith ei bod hi wedi chwarae rhan hollbwysig yn ei ddatrys."*

Trodd Mrs Jones ataf am gymorth gan fod ffos ddiffygiol ger ei chartref yn achosi llifogydd. Cysylltais â'r Cyngor ac maent bellach wedi gosod system ddraenio newydd. Dywedodd Mrs Jones: *"Rwy'n hynod ddiolchgar i Virginia am y gefnogaeth ac am y gwaith a wnaeth hithau a Chyngor Ynys Môn".*

Cafodd fisa darpar ferch-yng-nghyfraith Jennifer ei gwrthod ac felly ni allai ddod i'r DU i briodi. Wedi i mi ymyrryd, cafodd ei chais ei gymeradwyo ac aeth y briodas yn ei blaen. Meddai Jennifer: *"Diolch o galon am eich cymorth gyda'r mater hwn. Mae wedi adfer y ffydd sydd gennyf ym modau dynol."*

Credai Mr Hughes y byddai'n rhaid iddo ganslo ei wyliau i Ewrop pan gollodd y DVLA ei gais i adnewyddu ei drwydded yrru. Ar ôl cysylltu â'm swyddfa, dywedodd Mr Hughes: *"Ar ôl sawl ymgais rhwystredig ac ofer i gysylltu â'r DVLA i roi trefn ar y mater, penderfynais gysylltu â swyddfa Virginia Crosbie, a dyna'r gobaith olaf. Aethpwyd i'r afael â'r mater yn brydlon a chefais fy nhrwydded yrru cyn pen pythefnos. Diolch o waelod calon iddi hi a'i thîm am roi trefn ar bethau mor sydyn ac effeithlon. Diolch yn fawr iawn gan fy ngwraig a minnau am yr holl waith caled a wna dros y gymuned ac Ynys Môn."*

Cysylltodd Mrs Williams â mi ynglŷn â'i lwfans gofalwyr. Wedi i mi ymyrryd, rhoddwyd trefn ar ei thaliadau a chafodd ôl-daliad llawn. Meddai *"Ni chredwn y byddai'r mater hwn wedi'i ddatrys heb eich cymorth chi, felly rwy'n ddiolchgar iawn"*

VIRGINIA CROSBIE: GWEITHREDU DROS SWYDDI A BUDDSODDIAD I YNYS MÔN














## Prentisiaid o Fôn yn hawlio sylw yn San Steffan

Fel eich Aelod Seneddol, testun balchder i mi oedd dangos nifer o brentisiaid dawnus ein hynys yn San Steffan.

Gan weithio â Grŵp Llandrillo Menai, bu'r cwmnïau canlynol yn rhan o fy Niwrnod Sgiliau Ynys Môn: Babcock Group, Holyhead Marine Services Ltd, Carelink Homecare Services, Oystercatcher, Cyngor Sir Ynys Môn a Mona Lifting. Noddwyd y digwyddiad gan Bechtel, Sizewell C, Last Energy, Read Construction a WSP.

Roeddwn ar ben fy nigon o weld Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, yn traddodi araith yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn sgwrsio gyda'r cyflogwyr a'u prentisiaid.

Ymhlith yr Aelodau Seneddol adnabyddus eraill a fynychodd oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, y Gwir Anrhydeddus Gillian Keegan AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, Dr James Davies AS, a'r Gweinidog dros Ffyniant Bro, Dehenna Davison AS.

Cynhelir fy Niwrnod Ynys Môn nesaf yn San Steffan ddydd Mercher 22 Tachwedd 2023 rhwng 2pm a 4pm yn yr Ystafell Jiwbilî. Byddaf yn falch o gael dangos nifer o fusnesau lleol llwyddiannus ein hynys, megis Mona Lifting, Metex, John Kelly Construction, BIC Innovation a Red Boat Ice Cream. Croeso i bawb; anfonwch e-bost ataf i virginia4ynysmon@gmail.com os hoffech ddod fel gwestai i mi.

## 125 o swyddi lleol yn fy Ffair Swyddi Mehefin

*"Pleser gennyf yw rhoi gwybod i chi fy mod wedi llwyddo i sicrhau swydd fel gweithiwr cymorth. Ni fyddai hyn wedi digwydd petawn i heb fynd i'r Ffair Swyddi, felly diolch yn fawr am y gwahoddiad."* Ms Hughes

Mynychodd dros 100 o bobl leol y Ffair Swyddi a Chyfleoedd a drefnais gyda'r DWP a'r Canolfannau Byd Gwaith lleol. Daeth dros 15 o sefydliadau gyda mwy na 125 o swyddi ar gael rhwng y cwbl. Rhoddais wahoddiad hefyd i sefydliadau yn galw allan am wirfoddolwyr, fel Pwyllgor Croeso Caergybi sy'n croesawu ymwelwyr a ddaw yma ar gychod mordaith.

## Eich helpu chi i ddod o hyd i fwy o arian i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw

I ymateb i waith achos a'r heriau sy'n wynebu nifer o bobl ar draws ein hynys, cynhaliais Ffair Cyngor ar Gostau Byw yng Nghaergybi ac Amlwch. Mynychais innau, a'm tîm gwaith achos, a hyd at 24 o sefydliadau i gynnig cymorth ymarferol a chyngor i bobl leol.

Ymhlith y sefydliadau hynny oedd grwpiau lleol fel Cyngor Sir Ynys Môn, Môn CF a Menter Môn, banciau a chwmnïau cyfleustodau fel HSBC, Centrica a Dŵr Cymru, sefydliadau cymorth lleol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth, ac elusennau fel Shelter Cymru a SSAFA.

Roedd y digwyddiad yn rhad ac am ddim. Talwyd y costau gydag arian yr wyf i'n bersonol wedi'i godi i helpu pobl ar Ynys Môn.



## Denu mwy o arian i gymunedau lleol

Mae nifer o glybiau chwaraeon lleol wedi elwa o'm nawdd blynyddol, gan gynnwys Clwb Pêl-droed Aberffraw, Clwb Pêl-droed Tref Amlwch, tîm Bowlio Benllech, Hotspurs Caergybi, Clwb Rygbi Caergybi, Clwb Pêl-droed Llangefni, Clwb Rygbi Llangefni, Clwb Criced Porthaethwy a Chlwb Pêl-droed Bae Trearddur. Os hoffech i mi noddi eich clwb, cysylltwch â mi.

Roeddwn yn hynod falch o weld bod Ynys Môn wedi llwyddo i gyrraedd y nawfed safle yng Ngemau'r Ynysoedd, a phleser oedd cyfrannu at godi arian tuag at y costau teithio – helpais godi gwerth dros £6,000 ar gyfer costau teithio myfyriwr o Gaergybi a thros £1,600 ar gyfer Tîm Pêl-droed Merched Ynys Môn.

Rwyf wedi cynnal nifer o Giniawau Mawreddog sydd wedi codi dros £20,000 i elusennau lleol, gan gynnwys Marchogaeth i'r Anabl, Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Ynys Môn ac eraill.

I gefnogi grwpiau lleol, rydw i'n bersonol wedi codi dros £4,500 sydd wedi gwneud gwahaniaeth i'r grwpiau lleol canlynol:

3D Kids, Clwb Pêl-droed Aberffraw, Age Well, Anglesey Feline Support and Rescue, Banc Bwyd Ynys Môn, Clwb Pêl-fasged Hawks Ynys Môn, Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Cymuned y Lluoedd Arfog, Grŵp Rhieni Plant ag Awtistiaeth Ynys Môn, Barnardo's, Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch, Canolfan Iechyd Amlwch, Clwb Pêl-droed Bae Cemaes, Cylch Meithrin Llanerchymedd, Cymunedau Ymlaen Môn, Digartref, Eagle House Youth Development, GirlGuiding, Gorwel, Hedgehuggles, Tŷ Gobaith, cystadleuwyr Gemau'r Ynysoedd, Malltraeth Ymlaen, Marie Curie, Men's Sheds, Môn SAR (Chwilio ac Achub Iseldir Ynys Môn), Gwylwyr y Glannau Pwynt Leinws, North Wales Accessible Holidays, NSPCC Pentraeth, Pancreatic Cancer UK, PAWS Ynys Môn, PIWS, the Red Squirrel Trust, Clwb Chwaraeon Rhosneigr, Cymdeithas y Sgowtiaid, Eglwys St Cybi, Hosbis Dewi Sant, Stepping Stones, Tide Carers, cystadleuwyr y Gemau Trawsblaniad, Clwb Pêl-droed Bae Trearddur, Twrcelyn Thrift Shop, Unlock Your You, Marchogaeth i'r Anabl Ynys Môn a Chymdeithas Pêl-droed Ysgolion Ynys Môn.

## Sut ydw i wedi helpu gweithwyr y sector twristiaeth a lletygarwch ar Ynys Môn

Ar ran y nifer lu o bobl ar Ynys Môn sy'n gweithio yn y sector twristiaeth a lletygarwch, noddais Fil Aelod Preifat – Bil Cyflogaeth (Neilltuo Tipiau) a ddiwygiodd Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol fis Mehefin a bydd yn elwa dros ddwy filiwn o bobl ledled y DU gan ychwanegu £200 ar gyfartaledd i dâl net gweithwyr y sector bob blwyddyn



## Fy ngwaith i gyflawni gweithredu cadarnhaol dros ffermwyr Ynys Môn

Mae'r gymuned ffermio yn bwysig i Ynys Môn a dyma pam y gwahoddais y Gweinidog Ffermio i ymweld â Sioe Môn eleni. Noddais Sioe Môn a chynhaliais ginio mawreddog a gododd £2,000 i Gymdeithas Amaethyddol Môn. Bu i'r Gweinidog fwynhau ei ymweliad â'r digwyddiad eiconig hwn yn Ynys Môn.

Cysylltodd ffermwyr lleol â mi ynglŷn ag achosion o ymosodiadau gan gŵn peryglus. Gan weithio â Thîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, roeddwn yn falch o gyflwyno Bil Rheol Pum Munud Cŵn (Amddiffyn Da Byw) yn San Steffan.

Er mwyn sicrhau bod gan y gymuned ffermio lais, rwyf wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer ffermwyr lleol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach ac Uchel Gomisiynydd Awstralia i drafod y Bil Amaethyddol a Chytundebau Masnachu'r DU.

I ddathlu bod modd allforio cig oen i'r Unol Daleithiau unwaith eto, gwahoddais ffermwr lleol, Peter Williams, i San Steffan i gyflwyno coes cig oen a fagwyd ar Ynys Môn i'r Prif Weinidog.

## Fy ngwaith i warchod a hyrwyddo ein hiaith Gymraeg a'n diwylliant

Mae dros hanner poblogaeth ein hynys yn siarad Cymraeg, a dyna pam y canolbwyntiais fy nghynnig cynnar yn y dydd yn y Tŷ'r Cyffredin yn ymwneud â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg. Pan gefais fy ethol gan yr ynys, ymrwymais i ddysgu Cymraeg ac rwy'n parhau i wneud popeth yn fy ngallu i hyrwyddo a chynnal yr iaith.

Rwy'n falch o ddweud bod arian o Gronfa Adfywio Cymunedol gwerth £2.7m gan Lywodraeth y DU wedi'i ddefnyddio i amddiffyn a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg dan y cynllun Iaith Môn.

Y ffordd orau y gallaf amddiffyn ein hiaith Gymraeg a'n diwylliant yw drwy sicrhau bod cyflogaeth dda ac o ansawdd i'w chael ar Ynys Môn. Dyna pam yr wyf yn benderfynol o lwyddo gyda'n Porthladd Rhydd Ynys Môn, cyflwyno niwclear newydd i Wylfa a denu buddsoddiad o safon.








## Milltir o faneri i ddathlu Coroni'r Brenin

Bu penwythnos 6-8 Mai yn ddigwyddiad hanesyddol i bawb ym mhob cwr o'r DU, wrth i ni ddod ynghyd i ddathlu Coroni Brenin Charles III.

Defnyddiodd nifer o bobl ar Ynys Môn y digwyddiad hwn i ddod â'u cymunedau ynghyd i ddathlu a mwynhau.

Mynychais gynifer â phosibl o ddathliadau ar draws Ynys Môn, yn cyfarfod yr hyrwyddwyr cymunedol a'u trefnodd nhw a phobl leol o bob oed a oedd yn dathlu gyda'i gilydd. O gartrefi nyrsio i wardiau ysbytai, ysgolion, canolfannau cymunedol, neuaddau pentrefi, marchnadoedd, eglwysi a siopau.

I helpu pobl gyda'u dathliadau, es ati yn bersonol i ariannu dros filltir o fyntin Baner yr Undeb, y dosbarthais yn rhad ac am ddim.










## Sut allwch fy nefnyddio i daflu goleuni ar Ynys Môn?

Mae gan bob AS gyfle i ofyn cwestiynau ysgrifenedig i Weinidogion y Llywodraeth. Caiff y rhain eu cofnodi'n ffurfiol gan y Senedd ac maent yn rhoi cyfle arbennig i fy etholwyr gael atebion ynglŷn â pholisi'r Llywodraeth.

Rwy'n defnyddio atebion ysgrifenedig i godi ymwybyddiaeth Gweinidogion am faterion sy'n effeithio ar bobl a busnesau lleol ar Ynys Môn.

Mae'r 380 o gwestiynau ysgrifenedig yr wyf wedi'u cyflwyno wedi ymwneud â phynciau mor amrywiol â'r sgandal gwaed halogedig, awtistiaeth, ynni niwclear a gwasanaethau'r rheilffordd.

Hyd yn hyn eleni, rwyf wedi mynychu pum sesiwn Prime Minister's Questions, gan ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i godi proffil cenedlaethol Ynys Môn a sôn am bobl a sefydliadau lleol.

Mae nifer o bobl wedi sylwi ar fy agwedd hynod frwdfrydig yn ystod sesiynau Prime Minister's Questions ar ddyddiau Mercher a hefyd yn ystod y sesiynau Ministers' Questions yn y Tŷ Cyffredin.

Mae materion fel cau Pont y Borth ar fyr rybudd, pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, cefnogaeth ar gyfer niwclear newydd yn Wylfa a'r mater o wasanaethau rheilffyrdd gwael i Ynys Môn i gyd wedi bod yn rhan o ddadleuon yr wyf wedi'u harwain yn San Steffan.